Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn
# Ffordd Penarlâg
# Yr Hob
# Ger Wrecsam
# Sir y Fflint
# LL12 9NL

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Estyn yn Yr Hob, ger Wrecsam yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae 238 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 30 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae wyth dosbarth un oedran.

Cyfartaledd treigl tair blynedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 9.7%. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 15% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, ac ychydig iawn ohonynt sy'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd yn 2011. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn yn 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Estyn yn gymuned gynhwysol, ddigynnwrf a chroesawgar, lle mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddysgwyr gwydn a gwneud eu gorau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at eu gwaith, ac maent yn ymgymryd â thasgau â synnwyr o uchelgais. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus, ac yn defnyddio eu medrau Cymraeg â brwdfrydedd. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus i sicrhau bod yr ysgol yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys ystod eang y gweithgareddau allgyrsiol a gynigir. Maent yn ymfalchïo'n fawr yn eu hysgol. Ceir adnoddau da yn yr ysgol, ac mae staff wedi datblygu'r ardaloedd y tu allan yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn gywir, ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid mewn cynlluniau ar gyfer gwella. Mae staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn darparu cymorth ac arweiniad ar gyfer teuluoedd, sy'n sicrhau lefelau uchel o gyfranogiad gan rieni. Mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo'r disgyblion yn dda, ac yn cynyddu eu cyfleoedd i wneud cynnydd da yn yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau TGCh

A3 Miniogi gweithdrefnau monitro fel eu bod yn nodi'n gliriach y meysydd penodol y mae angen eu gwella

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn y meithrin, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar y lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae hyder, cyrhaeddiad a medrau cymdeithasol bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'n gyflym, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni safonau da iawn, yn enwedig mewn rhifedd. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny sy'n fwy abl yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u galluoedd a'u targedau personol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathro, ac ar ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn hyderus, ac yn cyfleu eu syniadau'n effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau siarad a gwrando disgyblion yn datblygu'n dda. Er enghraifft, yn y meithrin, mae disgyblion yn disgrifio'r modd y mae'n rhaid i fefus fod yn goch a llawn sudd er mwyn eu casglu. Ym Mlwyddyn 3, maent yn gwrando'n astud ar awgrymiadau ei gilydd ar gyfer ysgrifennu barddoniaeth ddoniol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau llyfrau ac yn siarad yn frwdfrydig am y lluniau a'r cymeriadau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio mynegiant priodol yn eu darllen, ac yn defnyddio eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn effeithiol i ganfod geiriau anghyfarwydd. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer o ddisgyblion yn darllen y cyfarwyddiadau i wneud i deganau rhaglenadwy weithio, gan ofalu bod yn gywir. Mae disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn ddarllenwyr hyderus. Mae llawer ohonynt yn brasddarllen a bwrw golwg yn gyflym i ddod o hyd i wybodaeth benodol mewn testunau, ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5, er enghraifft, yn darllen eu sgriptiau drama am eu gwaith ar atal bwlio seiber, ac yn gofalu am ffrindiau yn hyderus iawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ysgrifenwyr hyderus. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn ysgrifennu at ystod o ddibenion, gan gynnwys ysgrifennu eu henwau a labeli ar gyfer buchod coch cwta y maent wedi'u gwneud. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn creu llyfrau addysgiadol am y goedwig law, gan gynnwys ffeithiau diddorol am anifeiliaid sy'n byw yno. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus at ystod o ddibenion. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn ysgrifennu llythyrau atgofus gan Anne o Cleves at ei theulu, gan ddefnyddio ymadroddion fel 'as I left the magnificent palace, I had tears in my eyes' i ennyn diddordeb y darllenydd yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ac yn defnyddio eu medrau rhifedd yn eithriadol o dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae gan bron bob un o'r disgyblion afael cadarn ar rif. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn fedrus i ddatrys problemau go iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau i wella eu medrau rhifedd ac yn eu cymhwyso ar draws y cwricwlwm i safon uchel. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio ystod o weithrediadau mathemategol, gan gynnwys adio a thynnu i gynllunio cyllideb ar gyfer parti i'w dosbarth.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau oedolion. Maent yn mwynhau siarad am sut maent yn teimlo, a sut beth yw'r tywydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth ac yn defnyddio ymadroddion Cymraeg yn rheolaidd wrth iddynt chwarae. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn cynnal sgwrs am eu hoffterau a'u casbethau, eu hoff fwydydd a'u teulu yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn darllen testunau syml gyda dealltwriaeth gynyddol, ac yn atalnodi'n gywir ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio patrymau iaith cyfarwydd yn dda i ysgrifennu amdanyn nhw eu hunain cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu adolygiadau diddorol o lyfrau am 'in the woods in the Night', gan ddefnyddio iaith estynedig yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau addas mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn defnyddio'r rhain yn fedrus i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i gofnodi eu cyflwyniadau am St. Lucia. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod briodol o raglenni a chymwysiadau i wella eu dysgu. Er enghraifft, fe wnaeth disgyblion ym Mlwyddyn 5 gofnodi data mewn siart ddigidol am faint o greaduriaid roeddent wedi eu casglu ar ymweliad diweddar ag Afon Alyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn defnyddio ystod lawn y medrau TGCh yn ddigon rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae agweddau disgyblion at les a dysgu yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn ystod amseroedd egwyl ac mewn gwersi yn eithriadol o dda. Mae disgyblion yn dyfeisio eu siarteri ystafell ddosbarth a'u set o werthoedd eu hunain, ac o ganlyniad, maent yn awyddus i gadw atynt. Maent yn ofalgar, yn oddefgar ac yn hynod barchus tuag at ei gilydd, ac at oedolion. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel arweinwyr iard chwarae i ddarparu cyfeillgarwch a chymorth i ddisgyblion iau yn ystod amser cinio ac amser egwyl.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol, ac maent yn hyderus os bydd ganddynt unrhyw ofidiau neu bryderon, y bydd staff yn gwrando, ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr llawn cymhelliant, medrus, hyderus a gwydn. Maent yn barod i fentro ac yn mwynhau heriau newydd. Mae agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu yn cyfrannu'n dda at eu llwyddiant wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol.

Trwy rannu eu syniadau a'u diddordebau ar ddechrau testunau newydd, mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cael eu cynnwys yn gynyddol mewn ffurfio eu dysgu eu hunain. Mae disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i rannu eu syniadau a'u barn. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig, er enghraifft wrth ysgrifennu storïau difyr neu ddatrys heriau mathemategol cymhleth. Nid yw llawer o ddisgyblion yn ofni gwneud camgymeriadau, ac maent yn dechrau dod o hyd i ffyrdd o wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol. Pan fydd disgyblion yn cael cyfle, gwnânt ddewisiadau synhwyrol i ymestyn eu dysgu, er enghraifft wrth gynllunio eu tasgau yn gysylltiedig â'u gwaith testun ar India a'r Llychlynwyr. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ni roddir digon o gyfleoedd bob amser i ddisgyblion benderfynu beth maent yn ei ddysgu, a sut, yn ddigon aml.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, ac maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr gwydn. Maent yn canolbwyntio'n dda iawn wrth weithio ar eu pen eu hunain, ac yn cydweithredu'n dda â disgyblion eraill wrth weithio mewn parau a grwpiau bach. Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae disgyblion yn mwynhau ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, fel dod yn aelodau o grwpiau amrywiol llais y disgybl yn yr ysgol. Er enghraifft, mae gan arweinwyr digidol rôl hanfodol mewn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd aros yn ddiogel ar-lein trwy arwain sesiynau diogelwch ar-lein. Mae'r cyngor ysgol yn gweithio gyda staff y gegin i ddarparu diwrnodau rhagflas ysgol ar gyfer disgyblion, i hybu bwyta'n iach. Mae disgyblion yn mynd ati i gefnogi amrywiaeth o elusennau, gan gynnwys Tŷ Gobaith a mudiad Cymorth Canser Macmillan, yn ogystal ag elusen dramor sy'n codi arian ar gyfer ysgol yn Affrica. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth bwysig iddynt o bobl sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu rôl mewn dylanwadu ar benderfyniadau pwysig am yr ysgol gyfan.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bod yn weithgar a byw yn iach. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o glybiau allgyrsiol, sy'n cynnwys gwyddoniaeth a ffensio. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn mynd ar daith breswyl i Fae Caerdydd, a disgyblion Blwyddyn 5 i ganolfan anturus awyr agored Boreatton Park. Mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn i ddatblygu medrau cymdeithasol, creadigol, meithrin tîm a medrau corfforol da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion sy'n foesegol wybodus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dangos dealltwriaeth dda o ailgylchu a chynaliadwyedd yn y diwydiant rheoli gwastraff, ac yn awgrymu atebion synhwyrol i fynd i'r afael â'r problemau. Mae llawer o blant yn deall bod y dewisiadau a wnânt yn effeithio ar adnoddau naturiol a'r amgylchedd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd y cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion yn amrywiol a diddorol. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau a gweithgareddau dysgu difyr sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn llawn yn eu dysgu eu hunain. Mae gan bron bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, a defnyddiant strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad. Mae perthnasoedd gwaith rhwng staff a disgyblion yn gryf iawn ac mae hyn yn golygu bod disgyblion yn barod ac yn awyddus i ddysgu ar ddechrau pob sesiwn.

Mae athrawon yn cysylltu gwersi'n dda â dysgu blaenorol disgyblion, ac yn defnyddio ystod o ddulliau yn fedrus i ennyn diddordeb disgyblion. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu'n gryf, mae gwersi'n fywiog a dychmygus, ac mae gweithgareddau'n llifo'n bwrpasol. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn ffordd ystyrlon a difyr, gan ddefnyddio cerddoriaeth, celf a chyflwyniadau fideo i ddal dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau'n feddylgar i gefnogi dysgu annibynnol trwy gydol y wers. Mae hyn yn helpu disgyblion i ganolbwyntio'n glir ar yr hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella eu dysgu.

Mae cynllunio yn y cyfnod sylfaen yn drylwyr a hynod effeithiol. Caiff effaith gadarnhaol ar ba mor dda y mae disgyblion yn datblygu eu medrau, yn enwedig medrau rhifedd, ar draws y cwricwlwm. Mae cael mynediad rheolaidd at yr ardal gynlluniedig yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar weithgareddau ysgogol, fel cynllunio ac adeiladu tŷ mewn hinsawdd boeth gan ddefnyddio cewyll a phren. Dan do, mae disgyblion yn mwynhau ysgrifennu rhestrau a gofalu am yr anifeiliaid yn y filfeddygfa. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau wedi'u harwain gan ddisgyblion yn dda. Maent yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio i'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn trafod yn frwdfrydig y rhesymau pam mae'n rhaid i ni leihau ein defnydd o blastig. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, ac yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig, ac yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o feysydd y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyr emosiynol gartref fel faciwî, ac yn llunio cerdd synhwyraidd am fod mewn lloches rhag ymosodiadau o'r awyr. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn datrys problemau mathemategol cymhleth, fel canfod faint o ddŵr mae pobl yn ei wastraffu bob blwyddyn trwy adael y tap yn rhedeg pan fyddant yn brwsio eu dannedd, sy'n gysylltiedig â'u testun ar gynaliadwyedd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn ddigon systematig i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyson ar draws ystod lawn y medrau TGCh. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth buddiol ar lafar yn ystod gwersi, sy'n helpu disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau holi effeithiol i symud y disgyblion ymlaen yn eu dysgu. Maent yn annog ac yn cynorthwyo disgyblion i ymestyn eu hatebion i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae lleiafrif o athrawon yn cyfarwyddo dysgu disgyblion yn ormodol ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd iddynt wneud awgrymiadau, a dewis beth yr hoffent ei ddysgu, a sut.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru trwy astudio arwyr o Gymru, a chymharu eu hardal â Llandudno. Mae bron pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn gweithredu fel modelau rôl effeithiol trwy eu defnydd rheolaidd o orchmynion ac ymadroddion Cymraeg wrth iddynt ryngweithio â disgyblion bob dydd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion mewn Cymraeg, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae staff yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ac yn gwybod anghenion unigol disgyblion yn eithriadol o dda. O ganlyniad, mae'r ysgol yn creu amgylchedd meithringar sy'n meithrin hunan-barch disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn dysgu am werthoedd pwysig, fel gonestrwydd, parch a'r angen i werthfawrogi pobl eraill. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion a'r safonau da y maent yn eu cyflawni, ac mae'n helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o'u hawliau eu hunain, a hawliau pobl eraill.

Mae arweinwyr yr ysgol yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn bwrpasol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i

gynorthwyo disgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud, ac ymestyn y rheiny sy'n fwy abl.  Mae cynorthwywyr addysgu medrus yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth yn rheolaidd, sy'n helpu gwella medrau llafaredd, darllen a mathemategol disgyblion.  Mae staff yn hynod fedrus yn monitro disgyblion y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni.  Mae ymyriadau pwrpasol yn cefnogi eu lles a'u hanghenion emosiynol yn effeithiol, ac yn helpu rhoi iddynt strategaethau defnyddiol ar gyfer dysgu a rheoli eu teimladau.

Ceir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn cynyrchiadau a pherfformiadau, er enghraifft trwy wasanaethau teuluol, cynyrchiadau Nadolig a gwasanaethau carolau yn yr eglwys leol.  Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae gwersi coginio rheolaidd a siop ffrwythau yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddewisiadau ynglŷn â ffordd iach o fyw.  Ceir nifer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithgar yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl yr ysgol.  Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio llwybr cadw'n heini ac ardaloedd ymarfer golff mini yn ystod amser cinio.  Caiff disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen gyfleoedd bob dydd i reidio beiciau, a thaflu a dal peli.

Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau.  Mae aelodau o'r pwyllgor eco yn mynd ati'n rheolaidd i godi sbwriel, hyrwyddo ailgylchu a helpu disgyblion iau i ddeall buddion peidio â defnyddio gwellt plastig amser byrbryd.  Mae defnyddio 'coeden addunedau' yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o'r angen i ofalu am eu hamgylchedd, ac o ganlyniad, maent yn awyddus i sicrhau bod yr ysgol yn arbed dŵr a thrydan.

Pan fydd athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gyfrannu syniadau at eu profiadau dysgu bob dydd, maent yn ymateb i'r her yn frwdfrydig.  Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn gweithredu fel 'athrawon bach' ('tiny teachers') i helpu cynllunio gweithgareddau dysgu yn y gwahanol ardaloedd.  Mae hyn yn eu grymuso i fod yn ddysgwyr hyderus, gwydn ac annibynnol o oedran cynnar.  Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson dda ar draws yr ysgol, ac nid yw athrawon bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoedd proffesiynol hynod fuddiol gyda rhieni a gofalwyr.  Mae polisi 'drws agored' yr ysgol, y defnydd gofalus a wneir o gyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd rheolaidd rhwng rhieni ac athrawon, a chylchlythyrau llawn gwybodaeth yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n dda am fywyd yr ysgol, a chynnydd eu plant.  Trefnir ystod helaeth o weithdai ar gyfer rhieni trwy gydol y flwyddyn.  Er enghraifft, mae rhieni'r meithrin yn dysgu sut i ymestyn geirfa eu plant a hyrwyddo cariad at ddarllen.  Caiff rhieni disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen syniadau gwerth chweil i gefnogi medrau rhifedd plant gartref.  Mae gweithdai hefyd yn helpu gwella medrau rhieni mewn meysydd eraill, trwy fynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf, diogelwch ar-lein a datblygu eu gwybodaeth am y Gymraeg.  Mae defnydd yr ysgol o'i Hysgol Goedwig yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau datrys problemau yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon mynd i'r afael â phrofiadau dysgu newydd.  Mae natur ymarferol y gweithgareddau hyn wedi annog canran sylweddol o dadau i fynychu, ac mae dros hanner yr holl rieni yn mynychu o leiaf un gweithdy yn ystod y flwyddyn.  Ceir ymdeimlad cadarnhaol o gymuned yn yr ysgol a'r ardal, sy'n annog disgyblion i ddatblygu gwerthoedd teyrngarwch, cyfrifoldeb ac ymdeimlad o berthyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, nododd y tîm arolygu sawl maes pryder yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch, y daethant â nhw i sylw uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol y mae disgyblion yn ganolog iddi, ac sy'n canolbwyntio'n gadarn ar gynnydd a lles unigol pob plentyn. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon, sef 'ymestyn ymlaen gyda'n gilydd' ('reaching forward together'), yn eang, ac mae pob un o'r staff yn cyfrannu trwy gynorthwyo a meithrin disgyblion i'w helpu i wneud y mwyaf o'u hamser yn yr ysgol.

Mae pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn elwa ar ystod o ddysgu proffesiynol gwerthfawr a pherthnasol. Er enghraifft, mynychodd dau aelod o staff hyfforddiant ar sut i helpu disgyblion i wella eu dysgu eu hunain. O ganlyniad i hyn, mae llawer o staff yn dechrau gwella eu harfer yn y maes hwn, ac mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth well o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i symud ymlaen. Mae llawer o staff yn cydweithio mewn rhwydweithiau effeithiol o fewn yr ysgol, gydag ysgolion lleol a gydag ysgolion ledled Cymru. Er enghraifft, mae'r cydweithio agos â'r ysgol uwchradd leol a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd a hyrwyddo arfer orau mewn addysgu Cymraeg ar draws y gymuned ddysgu. Mae safonau mewn llafaredd Cymraeg, a oedd yn flaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol y llynedd, wedi gwella o ganlyniad.

Mae gweithdrefnau ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu yn effeithiol ac yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn croesawu'r rhagolwg o gael cwricwlwm newydd, ac o ganlyniad, mae staff yn addasu cynllunio i greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dysgu annibynnol. Bu hyn yn hynod effeithiol yn y cyfnod sylfaen.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol, ac mae llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae'r pennaeth yn rhoi ystod addas o wybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad ac adroddiadau cynnydd ar gynllun gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiadau yn yr ysgol, ac maent yn dechrau eu cynorthwyo i symud ymlaen.

Mae gan yr ysgol ddull cyson a buddiol o werthuso cynnydd disgyblion, ac mae uwch arweinwyr yn cyfarfod ag athrawon i wirio bod disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallant. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau dull unigol o fynd i'r afael ag anghenion pob plentyn ac yn helpu cynorthwyo teuluoedd, ac ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn cysylltu â chynllun gwella'r ysgol lle amlygir lles fel blaenoriaeth.

Mae gan yr ysgol brosesau addas i werthuso ei pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwella. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn rhoi dealltwriaeth addas i arweinwyr o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae'r pwyslais ar ddarllen, ysgrifennu a lles dros y flwyddyn ddiwethaf wedi codi safonau yn y meysydd hyn ar draws yr ysgol yn dda. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o wybodaeth i nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn canolbwyntio'n ddigon clir ar safonau i sicrhau bod gan arweinwyr ffyrdd effeithiol o fonitro a gwerthuso cynnydd ac effaith ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn drylwyr.  Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol lefel briodol o warged, y mae blaenoriaethau clir ar ei gyfer, ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n agos â thargedau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau sydd ar gael yn ofalus er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau.  Dros flynyddoedd lawer, mae'r ysgol wedi defnyddio grantiau a chyllid allanol yn effeithiol i wella'r awyr agored.  Mae'r defnydd o grantiau i gynorthwyo grwpiau sy'n agored i niwed a hyrwyddo cynhwysiant i bawb yn hynod effeithiol.  Er enghraifft, mae swyddog dysgu teuluoedd yn cyflwyno rhaglenni teilwredig i gynorthwyo disgyblion targedig sydd ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2019